CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL
Cadeirydd: Gari B Jones
Nos Fawrth Medi 3ydd 2024 am 7.30 y.h.

# Cofnodion (117)

1. **Ymddiheuriadau**: Cyng. Alun Owen
2. **Presennol:** Cyng. Dewi Evans, Gari B Jones, Gerallt Jones, Gethin Pyrs, Edmund Rees, Cyng. Sirol Gwennol Ellis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda - neb yn datgan diddordeb
4. **Cofnodion mis Gorffennaf** cynigiwyd yn gywir gan ER gydag GJ yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:**
   - 5.1.1. Diffib ym mlwch ffon Glanrafon disgwyl ymateb gan Tomos Hughes
   - 5.1.2. Trafodwyd y mater o gau'r toiledau cyhoeddus – penderfynwyd cysylltu gyda Gethin Davies gan ei fod yn dangos diddordeb mewn cymryd y lle drosodd, ac iddo ef a Gari Jones drefnu cyfarfod gyda Gary Williams o Gonwy ar y safle i drafod ymhellach.
6. **Gohebiaeth:**
   CBSC – wedi derbyn yr ail taliad o'r Presept **£1,777.00.**
7. F**furflen Blynyddol 2021 -22**
   Derbyniwyd y Datganiad cyfrifyddu 2021-22 yn ôl gan yr Archwilwyr allanol
   **Barn archwilio – Diamod**
   *'Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw gan roi achos pryder, mewn unrhyw barch materol, y wybodaeth ar adroddwyd yn y Ffurflen Flynyddol hon'*
   *Materion eraill: Archwiliad mewnol – ' Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS), mae'r Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol. Darperir ffynhonnell bwysig o dystiolaeth dros ddigonolrwydd y system o reoli mewnol gan yr Archwilydd Mewnol.'*
   Y Ffurflen Flynyddol wedi ei derbyn ar gynnig GJ gyda ER yn eilio ac oll o'r Cynghorwyr yn ei chymeradwyo.
8. **Monitro'r Gyllideb:**
   - i) Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
   - ii) Edrychwyd dros y fantolen banc a'i derbyn yn gyflawn.
9. **Talu Anfonebau:**
   - 9.1.1. Zurich Municipal - cynigiodd ER gyda GP yn eilio talu anfoneb yr yswiriant o **£316.74** gyda siec rhif **100413.** (S111/140)
   - 9.1.2. Archwilio Cymru - archwilwyr allanol - cynigiodd DE gyda GJ yn eilio talu'r anfoneb o **£200.00** gyda siec rhif **100414** (S151)
   - 9.1.3. Costau'r Clerc am 4 mis o Ebrill i Orffennaf – cynigiodd ER gyda GJ yn eilio talu'r costau o **£217.05** gyda siec rhif **100415** (S150)
10. **Lwfansau Aelodau 2024/25:**
    Y Cynghorwyr wedi cwblhawyd a llofnodi'r ffurflenni lwfansau..

11. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwenno Ellis**: adroddiad y Cyng. Sirol –

*Toiledau*

*Cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cyllid ac Adnoddau 02.09.24 – grŵp y blaid Dorïaidd ar y Cyngor wedi dod a rhybudd o gynnig nad oedd digon o ymgynghori wedi bod cyn gwneud y cyhoeddiad ym mis Gorffennaf fod 19 o doiledau, gan gynnwys Pentrefoelas i gau.*

*Trafod am 2 awr ar yr eitem yma yn y cyfarfod. Bydd y Cyngor yn wynebu diffyg o £21 miliwn yn y gyllideb 2025-26. Mae'n anorfod y bydd y toiledau'n cau gan nad oes arian i'w cadw ar agor – roedd bron pawb yn cytuno ar hynny.*

*Pasiodd aelodau'r Pwyllgor bron yn unfrydol y dylid gohirio'r cau ac i roi cyfle i drafod ymhellach gyda chynghorau Cymuned a Thref beth ellir ei wneud i gadw toiledau ar agor os mai dyma'r dymuniad.*

*Bydd angen trefnu ymweliad safle efo Gary Williams, Rheolwr Asedau mor fuan â phosib i drafod opsiynau ym Mhentrefoelas.*

*Grant:*

*Neges gan Elgan Owen – CVSC – byddai llawer o gyllidwyr yn cefnogi cynghorau cymuned a thref i redeg y gwasanaethau hyn – er y byddai'n anodd dod o hyd i gyllid hirdymor. Rydym eisoes yn cael trafodaethau gyda sawl cynghorydd tref a chymuned ynglŷn â hyn. Byddai arnom angen les o 5+ mlynedd neu hyd yn oed drosglwyddo ased. Byddai grantiau Clocaenog, Gwynt y Môr a Fflatiau Rhyl yn cwmpasu hyn mewn rhai ardaloedd o Gonwy a byddai'r Loteri yn ariannwr posibl arall.*

*Bydd croeso i unrhyw un sydd eisiau sgwrs gysylltu gyda'r Cyng. Sirol Gwennol Ellis*

*Sgubor Rin:*

*Aros am ddyddiad sy'n gyfleus i'r Cyngor Cymuned a'r swyddogion i gyfarfod yng Nghoed Pella. Cyng. Nigel Smith yn awyddus iawn i drafod cynllun Cwmpas efo'r aelodau i edrych ar opsiynau i grŵp o bobl gymryd y tir gan y Cyngor am bris rhesymol ac i lywio'r trafodaethau efo'r Cyngor. Pe bai'r Cyngor Sir yn sicrhau caniatâd ar gyfer plotiau unigol a'u gwerthu ar wahân, byddai'r gost yn sylweddol uwch i'r sawl fyddai'n prynu.*

12. **Unrhyw fater arall**:

12.1. Sgip Gymunedol – gan na fydd Conwy yn llogi'r sgip gymunedol mwyach penderfynwyd hysbysebu bod modd mynd a'r gwastraff i ailgylchu i Cerrigydrudion dydd Sadwrn cyntaf o bob mis ond bydd rhaid archebu slot.

13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** nos Fawrth Hydref 1af 2024

Arwyddwyd________________________________ Dyddiad___01.10.24

Cadeirydd